NADOLIG 2014
CHRISTMAS 2014

trysor

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch! Roedd pethau mor brysur 'nôl ym Mis Ebrill anghofion ni ddathlu 10fed penblwydd Trysor! Rydym yn falch o gyrraedd penblwydd mor bwysig ac yn hynod ddiolchgar am bob cefnogaeth a phob cyfle sydd wedi dod i'n ffordd ni ers i ni gymryd y cam mentrus o sefydlu Trysor yn 2004. Diolch!

Rhaid nodi ein tristwch yn sgil colli cyfaill annwyl iawn yn ystod y flwyddyn hon, sef Eirian James, Rheolwr Uned Cefn Gwlad - Hamdden a Mynediad, Cyngor Sir Gaerfyrddin. Eirian oedd y person cyntaf i ymddiried ynom a'n comisiynu ni i wneud gwaith iddo yn ôl yn 2004. Eirian, hefyd, rhoiodd anogaeth i ni fynd am statws "Cwmni Cofrestredig" gyda Sefydliad yr Archaeolegwyr rhai blynyddoedd yn ôl, ac roedd ei gyngor ef ar y pryd yn ddefnyddiol iawn. Coffa da amdano.

Merry Christmas and a Happy New Year to all! Yes, another busy year! We were so busy in April that we forgot to celebrate Trysor's 10th anniversary. We are proud to have reached this important anniversary, and very grateful for all the support and every opportunity that has come our way since we took the plunge and founded Trysor in 2004. Thank you!

We must note that this year has seen the loss of a very good friend, Eirian James, Countryside Access and Leisure Manager for Carmarthenshire County Council. Eirian was the first person to entrust us to undertake work for him, back in 2004. Eirian also gave us the key encouragement and advice when we decided to apply for "Registered Organisation" status with the Institute for Archaeologists. His loss is keenly felt.

Argae fach, Llyn Gwyddior, yn ardal Llanbrynmair, Maldwyn
A small dam, Llyn Gwyddior, near Llanbrynmair, Montgomeryshire

Yr olygfa o'r bryniau...

Yn ystod 2014 rydym wedi bod allan yn gwneud rhagor o waith arolygu yn y mynyddoedd fel rhan o "Fenter yr Uwchdiroedd", sy'n cael ei drefnu gan y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru. Ar ddechrau'r flwyddyn roeddem allan ar fryniau'r hen Sir Drefaldwyn, yng nghanol un o'r gaeafau gwlypaf ers blynyddoedd maith! Dros yr haf (sych a thwym!), ac i mewn i'r gaeaf, rydym yn gweithio ymhellach i'r gogledd, yn ardaloedd Llanfachreth a Thrawsfynydd, Gwynedd. Hyfryd iawn yw cael y profiad o weithio yng Ngwynedd o'r diwedd. Dyw'r archaeoleg ddim mor wahanol yn y gogledd wedi'r cyfan! Trist nodi taw hon yw blwyddyn olaf Menter yr Uwchdiroedd, gyda 100 cilomedr sgwâr heb ei orffen.

Wrth droed y Rhobell Fawr, Llanfachreth, Gwynedd
At the foot of Rhobell Fawr, Llanfachreth, Gwynedd

The view from the hills...

During 2014 we have again been out doing upland survey work as part of the "Uplands Initiative" managed by the RCAHMW. At the start of the year we were on the hills of Montgomeryshire, during one of the wettest winters seen for many years. Over the summer (hot and dry!) and into the winter we have been working in the Llanfachreth and Trawsfynydd areas, Gwynedd. It's been great to be able to do some survey work in Gwynedd at last. The archaeology there isn't actually so very different from that in the south after all! It is sad to record that this is going to be the final year of the Uplands Initiative project, 100 sq.km short of completion.

@Trysor - blwyddyn o drydaru...
@Trysor - a year of tweeting...

@Trysor Ion 12
Diwrnod hir yn cofnodi olion mwynglawdd Aberdaunant, Sir Drefaldwyn heddiw. Safle diddorol!
@Trysor Jan 12
A long day recording features at Aberdaunant lead mine, Montgomeryshire today. Interesting site!

@Trysor · Mehef 12
Lansiad prosiect 'Cofio'r Glowyr' Ystradgynlais heddi, 6 panel rydym wedi paratoi gyda'r grwp hanes leol
@Trysor · Jun 12
Launch of 'Remembering the Miners' Ystradgynlais today, 6 panels we have done with the local heritage group

@Trysor · Gorff 20
Diolch i bawb ymunodd â ni i gerdded heddiw rhwng Elan ac Ystwyth. Diwrnod ardderchog! #FestivalofArch
@Trysor · Jul 20
Thanks to all those who joined our Elan/Ystwyth walk today. It was a great day! #FestivalofArch



@Trysor Gorff 30
Gwneud asesiad o effaith rhyw ddatblygiad yn Sir Gâr a wedi galw i weld Tŵr Paxton. Godidog!
@Trysor · Jul 30
Doing an impact assessment for a planning matter in Carmarthenshire and have called to see Paxton's Tower. Superb!

@Trysor Awst 11
Brîff gwylio yn CN Emlyn heddi. Y palmant gwreiddiol o flaen hen Neuadd y Dre yn dod i'r golwg. Henach na'r 1890au.
@Trysor Aug 11
Watching brief in NC Emlyn today. Here's the original pavement outside the old Market Hall reappearing. Pre-1890s

@Trysor Medi 8
Newydd gael brecwast llyseuol hyfryd yn Y Bws, Doc Penfro!
@Trysor Sep 8
Just had a very good veggie breakfast in The Bus, Pembroke Dock.

@Trysor Medi 4
Dyma nefoedd y sawl sy'n hoff o hafotai - ar Y Fron, uwchben Rhydymain, Gwynedd
@Trysor Sep 4
Hafod heaven for those who like deserted settlements - on Y Fron, above Rhydymain, Gwynedd

@Trysor Mai 12
Gwnaethon ni ddala lan gyda rhai o'n hen gyfeillion yn @DyfedArch yn cloddio ger Tyddewi y bore 'ma!
@Trysor · May 12
We caught up with some of our old pals from @DyfedArch digging near St David's this morning

@Trysor · Chwef 20
Un o drysorau cudd #maldwyn Rhaeadr ger Lle'r Tai, Foel
@Trysor · Feb 20
One of #montgomeryshire's hidden delights. Waterfall near Lle'r Tai, Foel

A llawer mwy
And many more...